# Cyngor Cymuned Tudweiliog

## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 12fed Ionawr 2026
Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Terry Hughes, Henri Hughes, Gareth Jones, Catrin Williams, Alan Hughes, Sioned Pearson, Dafydd Williams, Alyn Williams, John Davies, Deio Williams, Sian Parri

Ymddiheuriadau: Chris Brady

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Gan nad oedd Chris Brady yn bresennol, penderfynwyd fod y Clerc yn cysylltu yn uniongyrchol a Carter Jonas gan geisio symud ymlaen i brisio'r tir a trefnu ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned.
   b. **Polisi Gosod Tai** – Cafwyd diweddaraid gan Sian Parri fod ymateb Dafydd Gibbard Cyngor Sir Gwynedd a'r Comisiynydd yr Iaith yn addo cyhoeddiad cyn hir a allai fod yn gadarnhaol iawn i'r ymgyrch – amseriad amserol gan fod cais Botwnnog wedi ei ganiatau.
   c. **Hysbysfwrdd –** Ni chafwyd diweddariad gan nad oedd Chris Brady yn bresennol. Bydd y Clerc yn cael gair gyda Chris.
   ch. **Archwyliad Allanol –** Dim diweddariad.
   d. **Ymddiswyddiad y Clerc –** Cafodd y Clerc sgwrs gyda Clerc Aberdaron, yn anffodus doedd dim diddordeb ganddo gymeryd y Swydd. Bydd y Cadeirydd yn trefnu fod y Swydd yn cael er rhoi ar Gwefan Cyngor Gwynedd.

Dd. **Cronfa Gymorth Beilot Dydd Gwyl Dewi 2026 -** Gwrthodwyd y Cais.

e. **Perthyn** – Gwrthodwyd y cais.

F. **Cyflwyr y Ffordd o Ganolfan Llaniestyn i gyffordd Glan Beuno-** Hyd yma ni dderbynwyd ymateb.

Ff. **Carafan Llangwnnadl –** Dim ymateb

4. Gohebiaeth:

a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.

b. **Safle parcio Garnfadryn –** Daeth cwyn i law y Clerc fod cerbydau yn parcio drwy dydd a nos ym maes parcio ger llwybyr i fyny'r mynydd yn pentref Garnfadryn, gan gyfyngu ar le parcio y rhai oedd yn dymuno cerdded fyny'r mynydd dros gwyliau'r Nadolig. Golyga hyn fod cerbydau yn parcio yma ac acw drwy'r pentref. Anfonodd y Clerc y cwyn ar y Cynghorydd Sir ynghyd a'r adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Derbynnwyd ymateb gan y Swyddog yn holi os oedd arwyddion cyfyngiadau ar y safle yn bresennol. O wybod hyn bydd y Swyddog yn gallu asesu pa gamau i'w cymeryd nesaf. Trafodwyd y mater gan y Cynghorwyr Cymuned gan sefydlu nad oes cyfyngiadau wedi eu gosod ac y byddai arwydd sy'n gwybyddu mai parcio ar gyfer cerddwyr i fyny'r mynydd a mynychwyr i''r Capel yw hwn yn bennaf, ac na ddylid parcio dros nos. Bydd y Clerc yn trafod hefo'r Swyddog i sefydlu pwy i'w perchennog y safle ynghyd ac i pa bwrpas yr adeiladwyd y safle. Bydd yn gofyn hefyd os oes modd gosod arwyddion ar y safle.

c. **Twll yn y ffordd ger Bwlch Gwyn Garnfadryn –** Bellach wedi ei drwsio.

Ch.**Dwr yn Croni ger Frondeg Garnfadryn -**Derbynwyd cadarnhad fod Swyddogion wedi archwylio a'u bod yn gwethio ar ddarganfod craidd y broblem

d. **Adran 137** – Rhannodd y Clerc y wybodaeth ynglyn a'r Adran 137 sydd eleni yn £11.60 fesul etholwr.

dd. **Anfoneb J A Pozzi £684.00** – derbynwyd caniatad i'w thalu.

e. **Cais Cynllunio C25/0812/46/LL** Bryn Odol – Cefnogi

f. **Praesept 2026/27** – Rhannodd y Clerc gyllideb y flwyddyn gyda'r Cynghorwyr oedd yn rhoi amcan o gostau dros y flwyddyn. O ystyried hyn a'r ffaith y bydd cosdau gyda'r fynwent newydd

penderfynwyd cadw’r praesept ar £10,000 (deg mil o bunnoedd) am flwyddyn arall.

5. **Unrhyw fater arall**:

a. Derbynwyd cwyn fod twll yn datblygu ger Cae Garw Garnfadryn, bydd y Clerc yn gwybyddu’r Adran Priffyrdd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Chwefror 9fed am 7.30yh**
**Festri Capel Garnfadryn.**